



Cynllun Blynyddol

2019-2020



Arolygieth EI Mewrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon/cyhoeddiad hwn yn gywir adeg ei chyhoeddi/gyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r cynnwys at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor

Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon neges e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae holl gyhoeddiadau Estyn ar gael ar ein gwefan, sef: www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2019: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen benodol/cyhoeddiad penodol

Rhagair y Prif Arolygydd	1
Trosolwg strategol	3
Arolygiaeth Dysgu: ein cynllun pontio strategol	4
Y nodau llesiant a'n defnydd o adnoddau	6
Amcan strategol un: Darparu atebolrwydd cyhoeddus ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru	8
Ein trefniadau presennol	9
Pam rydym yn arolygu	9
Arolygiadau 2019-2020	9
Cynllunio ar gyfer y dyfodol	13
Y flwyddyn bontio	13
Arolygu a dilysu	13
Y nodau llesiant a'r egwyddor datblygu cynaliadwy	14
Amcan strategol dau: Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru	15
Ein trefniadau presennol	16
Sut rydym yn rhoi cyngor	16
Adroddiad Blynyddol PAEM	16
Arolygon/adroddiadau thematig	17
Cyfarfodydd â Gweinidogion a swyddogion Llywodraeth Cymru	17
Tystiolaeth ysgrifenedig a llafar a roddir i bwyllgorau Cynulliad Cenedlaethol Cymru	17
Cyngor i weithgorau a phaneli Llywodraeth Cymru	18
Ymatebion i ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru	18
Cyngor a chymorth i Lywodraeth Cymru mewn meysydd eraill	18
Cynllunio ar gyfer y dyfodol	20
Darparu cyngor i lywio polisi cenedlaethol	20
Cymorth ar gyfer diwygio addysg	20
Y nodau llesiant a'r egwyddor datblygu cynaliadwy	21

Amcan strategol tri: Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru	24
Ein trefniadau presennol	25
Sut rydym yn meithrin gallu ar gyfer gwella	25
Arolygwyr cymheiriaid, ymgynghorwyr her, arolygwyr lleyg a myfyrwyr arolygu	25
Arolygwyr cyswllt	27
Lledaenu astudiaethau achos	27
Dathlu arfer ragorol	27
Ein gwefan	28
Cynllunio ar gyfer y dyfodol	29
Gwaith arolygwyr ardal ac ymweliadau ymgysylltu	29
Y nodau llesiant a'r egwyddor datblygu cynaliadwy	30
Egwyddor cyflawni un: Parhau i ddatblygu Estyn yn sefydliad 'gwerth gorau' a 'chyflogwr enghreifftiol'	31
Ein trefniadau presennol	32
Sut rydym yn datblygu Estyn yn sefydliad 'gwerth gorau' a 'chyflogwr enghreifftiol'	32
Llywodraethu ac arweinyddiaeth	32
Ymgysylltiad staff	32
Cydraddoldeb a lles staff	32
Safonau'r Gymraeg	33
Cynaliadwyedd	33
Dangosyddion perfformiad	33
Adborth a chwynion	33
Adnoddau	34
Cynllunio ar gyfer y dyfodol	36
Dysgu proffesiynol ar gyfer staff	36
Y nodau llesiant a'r egwyddor datblygu cynaliadwy	38
Egwyddor cyflawni dau: Parhau i gydweithio ag arolygiaethau eraill a rhanddeiliaid i gefnogi gwelliant	39
Ein trefniadau presennol	40
Sut rydym yn cydweithio	40
Cydweithio â chyrrff Arolygu Cymru	40
Meysydd eraill o gydweithio ag arolygiaethau yn y DU a'r tu hwnt	41
Cynllunio ar gyfer y dyfodol	42
Hunanwerthuso ar gyfer dysgu a gwella	42
Cryfhau ymgysylltu â rhanddeiliaid a chyfathrebu yn gyffredinol	42
Y nodau llesiant a'r egwyddor datblygu cynaliadwy	44

Rhagair y Prif Arolygydd

PHOTO REDACTED DUE TO THIRD PARTY RIGHTS OR OTHER LEGAL ISSUES



Mae Addysg yng Nghymru ar daith ddiwygio uchelgeisiol. Y bwriad yw gwella addysg yng Nghymru trwy feithrin diwylliant o ymddiriedaeth, parch a chydweithio ar y ddwy ochr rhwng ysgolion a darparwyr addysg eraill ac asiantaethau. Mae gwaith Estyn yn hanfodol o ran cefnogi'r daith hon ac mae ein hymagwedd at arolygu hefyd yn esblygu, a bydd yn parhau i newid dros y blynyddoedd nesaf i'r perwyl hwn.

Rwyf wedi croesawu'r adroddiad annibynnol, sef '[Arolygiaeth Dysgu](#)', ar oblygiadau diwygio addysg i Estyn. Rwy'n falch fod yr adroddiad wedi cydnabod rôl hanfodol Estyn o ran gwella dysgu pobl ifanc yng Nghymru, ac mae'n adeiladu ar gryfderau'r system arolygu bresennol. Yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf, bydd gwaith Estyn yn esblygu i ymateb i'r argymhellion yn Arolygiaeth Dysgu.

Byddwn yn gwneud newidiadau i drefniadau arolygu mewn tri cham, fel yr amlinellir yn y cynllun pontio strategol ar dudalen 4. Mae ein dyletswyddau statudol yn aros yr un fath, a byddwn yn parhau i arolygu ac adrodd ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Bydd unrhyw newidiadau'n cael eu rhoi ar waith yn dilyn ymgynghoriad llawn â'n rhanddeiliaid. Cyn bo hir, byddwn yn lansio ymgynghoriad am y trefniadau ar gyfer y cam cyntaf – sef blwyddyn bontio yn 2020-2021. Rydym yn cynnig y dylid atal arolygu yn rhannol ar gyfer ysgolion a gynhelir yn ystod y flwyddyn honno i'n galluogi i ymweld â phob ysgol yng Nghymru i gefnogi a gwerthuso eu dealltwriaeth o ddiwygio'r cwricwlwm a'u parodrwydd ar ei gyfer.

Blwyddyn academaidd 2019-2020 fydd blwyddyn olaf ein system arolygu bresennol ar gyfer ysgolion. Byddwn yn dechrau ymgynghori ar sut olwg allai fod ar arolygu ar ôl 2021. Byddwn hefyd yn gwerthuso'r datblygiadau arolygu y gwnaethom arbrofi â nhw y llynedd ar gyfer gwasanaethau addysg llywodraeth leol, a rhoi ein trefniadau arolygu newydd ar y cyd ar waith gydag Arolygiaeth Gofal Cymru yn y sector nas cynhelir.

Yn ystod 2019-2020, byddwn yn parhau i lywio datblygu polisi cenedlaethol trwy gyhoeddi arolygon thematig a chyngor arall i ymateb i lythyr cylch gwaith blynyddol y Gweinidog. Hefyd, erbyn Ionawr 2020, byddwn yn datblygu rôl newydd arolygydd tiriogaethol neu arolygydd ardal i gynnal ymweliadau ymgysylltu ag ysgolion yn dilyn ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol ar ddiben a chwmpas y gwaith hwn.


Byddwn yn datblygu ein rhaglenni hyfforddi ymhellach i wneud y gorau o fedrau ac arbenigedd ein harolygwyr ein hunain a'r gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda ni fel arolygwyr cofrestredig, arolygwyr cymheiriaid ac arolygwyr lleyg. Hefyd, byddwn yn parhau i nodi arfer sy'n ddiddorol, yn arloesol ac yn werth ei hefelychu ble bynnag y gwelir hyn trwy ein gwaith arolygu a'n gwaith thematig. Yn hydref 2019, byddwn yn cynnal ein pedwaredd noson wobrwyo i gydnabod yr arfer effeithiol hon.

Bydd fy Adroddiad Blynyddol nesaf yn cael ei gyhoeddi ar ddiwedd mis Chwefror 2020 a bydd yn rhoi trosolwg manwl o 'gyflwr y genedl' o ran system addysg Cymru, gan ddefnyddio tystiolaeth arolygu a thystiolaeth arall, gan gynnwys y canlyniadau PISA diweddaraf.

Mae'r cynllun hwn yn amlinellu'r modd y byddwn yn parhau i ddarparu gwerth am arian a chynnal cost effeithiolrwydd yn ystod cyfnod o gyfyngu ariannol. Yn ystod 2019-2020, byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i nodi'r goblygiadau adnodd sy'n gysylltiedig ag 'Arolygiaeth Dysgu'. Hefyd, byddwn yn parhau i gynnal ein trefniadau llywodraethu trylwyr, yn parhau i ymgysylltu â'n staff yn effeithiol, ac yn datblygu ein medrau a'n gallu arwain ymhellach.

Rwy'n credu'n gryf fod gweithio gydag eraill yn gwella gwaith Estyn. Byddwn yn parhau i weithio gyda chyrrff arolygu yng Nghymru a ledled y DU ac Ewrop i gydweithio a rhannu ein harfer. Er enghraifft, byddwn yn parhau i weithio gyda Swyddfa Archwilio Cymru a gydag arolygiaethau addysg a hyfforddiant ar draws y gwledydd cartref ar ein harolygiadau addysg bellach a dysgu yn y gwaith.

Byddwn yn parhau i gynnal ein hymrwymiad i weithio gyda'n rhanddeiliaid ar ddatblygu dealltwriaeth ar y cyd a'r hyn rydym ni i gyd yn ceisio'i gyflawni gyda'n gilydd, ac o'r rôl benodol sydd gan bob un ohonom mi o fewn system addysg Cymru. Edrychaf ymlaen at weithio gyda chi ar yr agenda uchelgeisiol hon.



Meilyr Rowlands

Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Trosolwg strategol

Ein **cenhadaeth** yw cyflawni rhagoriaeth i bob dysgwr yng Nghymru trwy ddarparu gwasanaethau arolygu a chyngor annibynnol, o ansawdd uchel.

Ein **gweledigaeth** yw cael ein cydnabod trwy arbenigedd ein staff yn llais awdurdodol ar addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Ein **hamcanion strategol** yw dibenion craidd ein gwaith. Gwella ansawdd deilliannau i ddysgwyr yng Nghymru, trwy wneud y canlynol yn fwy effeithiol:



Wrth wneud hynny, mae yr un mor bwysig bod Estyn yn dilyn ei **egwyddorion cyflawni**.

Parhau i ddatblygu Estyn yn sefydliad 'gwerth gorau' a 'chyflogwr enghreifftiol'

Parhau i gydweithio ag arolygiaethau eraill a rhanddeiliaid i gefnogi gweiliant

Ein gwerthoedd



1. Mae [Datganiad Arweinyddiaeth y Gwasanaeth Sifil](#) yn amlinellu'r ymddygiadau disgwylidig a'r ymagwedd at arweinyddiaeth rydym yn eu disgwyl gan ein holl staff.
2. Mae [Cod y Gwasanaeth Sifil](#) yn amlinellu gwerthoedd, safonau ymddygiad a hawliau a chyfrifoldebau y Gwasanaeth Sifil.

Mae'r adran [amdanom ni](#) ar ein gwefan yn esbonio ymhellach y gwaith rydym yn ei wneud mewn perthynas ag arolygu darparwyr addysg a hyfforddiant, darparu cyngor ac arweiniad, meithrin gallu a lledaenu arfer orau, a gweithio mewn partneriaeth ag arolygiaethau eraill.

Arolygiaeth Dysgu: ein cynllun pontio strategol


Mae cynllun pontio strategol Estyn yn amlinellu tri cham ein rhaglen newid o 2019 ymlaen. Drafft amlinellol yw'r cynllun pontio ar hyn o bryd, a byddwn yn datblygu ac esblygu wrth i ni weithio i gefnogi'r newidiadau yn addysg Cymru.

2019-2020: Cylch presennol


- 1 Cymorth ar gyfer diwygio addysg trwy arolygu thematig a darparu cyngor ac arweiniad
- 2 Datblygu ac arbrofi â'r pecyn cymorth hunanwerthuso
- 3 Datblygu rôl ymweliad ymgysylltu
- 4 Dechrau datblygu trefniadau arolygu newydd
- 5 Datblygu ein hymgysylltu â rhanddeiliaid ymhellach
- 6 Cynllunio ar gyfer y flwyddyn bontio, ac ymgynghori arni
- 7 Cyhoeddi adroddiad blynyddol newydd ar gyflwr y genedl
- 8 Cynorthwyo staff ar gyfer diwygio addysg ac ymweliadau ymgysylltu

Cam 1 blwyddyn bontio

- 1 Cymorth ar gyfer diwygio'r cwricwlwm trwy ymweliadau ymgysylltu
- 2 Cyflwyno trefniadau hunanwerthuso, gan gynnwys mireinio'r pecyn cymorth a'r hyfforddiant
- 3 Ymweliad ymgysylltu â phob ysgol i gefnogi a gwerthuso diwygio addysg



2021-2022 a thu hwnt: Cam 2 a 3



Allwedd i brosiectau

- 1 Cymorth ar gyfer diwygio addysg
- 2 Hunanwerthuso ar gyfer dysgu a gwella
- 3 Ymweliadau ymgysylltu
- 4 Arolygu a dilysu
- 5 Cryfhau ymgysylltu â rhanddeiliaid a chyfathrebu cyffredinol
- 6 Y flwyddyn bontio, gan gynnwys cynadleddau a seminarau
- 7 Darparu cyngor i lywio polisi cenedlaethol
- 8 Dysgu proffesiynol ar gyfer staff

Nodau llesiant a'n defnydd o adnoddau


Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015¹ ('y Ddeddf') yn amlinellu diben a rennir i gyflawni ansawdd bywyd gwell a pharhaus i bob un ohonom. Caiff y diben a rennir ei gynrychioli gan set integredig o saith nod llesiant.

Mae'r Ddeddf hefyd yn rhoi egwyddor datblygu cynaliadwy ar waith, sy'n dweud wrth sefydliadau sut i fynd ati i gyflawni eu dyletswydd o dan y Ddeddf.

Ers blynyddoedd lawer, bu Estyn yn ymgorffori egwyddor datblygu cynaliadwy yn y ffordd rydym yn defnyddio ein hadnoddau. Er nad yw'r ddyletswydd yn berthnasol i Estyn (nid ydym yn gorff cyhoeddus rhestredig at ddibenion y Ddeddf), rydym, serch hynny, yn cefnogi ysbryd y Ddeddf ac yn ceisio cynnwys yr elfennau lles angenrheidiol a'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn ein cynllunio, ein llywodraethu a'n cyflwyno gweithredol.

Rydym wedi nodi ar ddiwedd pob adran sut bydd ein gwaith cynlluniedig yn cyfrannu at y nodau llesiant a'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

Nodau llesiant



¹ [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#) a [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015 Yr Hanfodion](#)

Mae **Cymru lewyrchus** yn dibynnu ar boblogaeth fedrus sydd wedi cael addysg dda mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn darparu cyfleoedd gwaith.

Mae **Cymru gydnherth** yn cynnal a gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau gweithredol iach sy'n cefnogi cydnherthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol a'r gallu i addasu yn unol â newid (er enghraifft newid hinsawdd).

Nod **Cymru iachach** yw gwella lles corfforol a meddyliol pobl i'r eithaf.

Nod **Cymru sy'n fwy cyfartal** yw galluogi pobl i gyflawni eu potensial, ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau.

Nod **Cymru sydd o gymunedau cydlynus** yw sicrhau cymunedau deniadol, diogel a chysylltiedig.

Nod **Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu** yw hyrwyddo a gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg, ac annog pobl i gymryd rhan yn y celfyddydau, ac mewn chwaraeon a hamdden.

Nod **Cymru sy'n gyfrifol ar lefel byd-eang** yw gwneud cyfraniad cadarnhaol at les byd-eang wrth wneud unrhyw beth i wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.

Yr egwyddor datblygu cynaliadwy

Mae angen i gyrff cyhoeddus feddwl am bum peth i ddangos eu bod wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

- Y tymor hir – pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a'r angen i ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir hefyd
- Atal – sut i atal problemau rhag digwydd yn y lle cyntaf
- Cydweithio – sut rydym yn gweithio gydag eraill

- Ymglymiad – sut rydym yn cynnwys pobl wrth wneud penderfyniadau
- Integreiddio – pa mor gysylltiedig yw ein bywydau

PHOTO REDACTED DUE TO THIRD PARTY RIGHTS OR OTHER LEGAL ISSUES

Ein trefniadau presennol

Pam rydym yn arolygu

Caiff yr holl ddarparwyr addysg a hyfforddiant eu harolygu o leiaf unwaith o fewn cylch. Mae'r cylch arolygu presennol yn gyfnod saith mlynedd a ddechreuodd ym mis Medi 2016.

Gellir cael manylion ynghylch [pam rydym yn arolygu](#) a'r ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i bob sector ar ein gwefan.

Mae ein harolygiadau wedi eu gwreiddio mewn tystiolaeth uniongyrchol a arsylwyd. Mae arolygwyr yn gwerthuso'r addysgu a'r dysgu ar draws ystod o sesiynau, yn adolygu gwaith dysgwyr, yn siarad â dysgwyr am eu hastudiaethau, yn cyfweld ag ymarferwyr, ac yn cynnal cyfarfodydd gyda llywodraethwyr, rhieni a gofalwyr. Mae canfyddiadau arolygiadau yn seiliedig ar farn broffesiynol arolygwyr profiadol a fu'n ymarferwyr.

Fe wnaethom gyflwyno ein [fframwaith arolygu cyffredin](#) presennol ym mis Medi 2017. Mae'r fframwaith wedi'i gynllunio fel bod arolygiadau'n bodloni'r gofynion statudol a amlinellir mewn deddfwriaeth. Mae [arweiniad arolygu](#) ac [arweiniad atodol](#) ar gyfer arolygu ar gael ar ein gwefan ar gyfer pob sector rydym yn ei arolygu.

Arolygiadau 2019-2020

Arolygiadau craidd

Mae ein cynllun arolygiadau (gweler tudalen 12) yn dangos nifer gychwynnol yr arolygiadau craidd rydym yn disgwyl eu cynnal yn 2019-2020. Bydd nifer wirioneddol yr arolygiadau yn cael ei haddasu gan newidiadau sy'n codi mewn blwyddyn, er enghraifft nifer yr ysgolion sy'n cau a nifer yr ysgolion sy'n uno. Bydd ein gwefan yn [cynnwys y diweddaraf ar y cynllun arolygu](#).

Caiff arolygiadau craidd Estyn eu harwain gan arolygydd cofnodol. Yn y rhan fwyaf o sectorau rydym yn eu harolygu, mae'r arolygydd cofnodol yn un o Arolygwyr Ei Mawrhydi (AEM), ond gall fod yn Arolygydd Cofrestredig neu'n Arolygydd Cofrestredig Meithrin. Bron ym mhob sector rydym yn ei arolygu, byddwn yn parhau i ddefnyddio arolygwyr cymheiriaid hyfforddedig ar ein timau arolygu. Gan amlaf, gall darparwyr ddewis enwebai o blith eu staff eu hunain i gysylltu'n agos â'r tîm arolygu. Ar gyfer arolygiadau ysgol, bydd arolygydd lleig hefyd. Mae ein gwefan yn amlinellu ein [rolau arolygwyr](#) yn fanylach.

Sicrhau ansawdd

Mae gennym systemau cadarn, amrywiol, i sicrhau cysondeb, dibynadwyedd, dilysrwydd a chywirdeb deilliannau arolygu. Gellir gweld [trefniadau Estyn ar gyfer sicrhau ansawdd arolygiadau](#) ar ein gwefan.

Gweithgarwch dilynol

Yn ystod arolygiad, rydym yn ystyried p'un a oes angen unrhyw weithgarwch [dilynol](#) ar y darparwr. Mae tri math o weithgarwch dilynol ar gyfer ysgolion, sef:

- 1 Adolygu gan Estyn (monitro gan Estyn gynt)
- 2 Gwelliant sylweddol
- 3 Mesurau arbennig

Mae gwelliant sylweddol a mesurau arbennig yn gategorïau statudol sy'n berthnasol i ysgolion sy'n destun pryder, fel y'u diffinnir gan Ddeddf Addysg 2005, ac unrhyw gylchlythyrau cysylltiedig. Mae pob math o waith dilynol yn cynnwys gweithgarwch gan arolygwyr Estyn. Mae'r gweithgarwch yn cynnwys cynyddu lefelau ymyrraeth yn unol ag angen.

Rydym hefyd yn arbrofi â chynadleddau gwella mewn ysgolion. Mae cynadleddau gwella yn cynnwys yr ysgol, y corff llywodraethol, yr awdurdod lleol a'r consortiwm rhanbarthol mewn trafodaeth agored ynglŷn â'r rhesymau dros ddiffyg cynnydd yr ysgol. Mae'r cynadleddau hyn yn adolygu a mireinio cynlluniau gweithredu'r ysgol a'r awdurdod lleol i gefnogi lefel cynnydd well a chyflymach, yn unol â'r argymhellion o'r arolygiad craidd.

Ar gyfer lleoliadau meithrin nas cynhelir, fe wnaethom roi [trefniadau diwygiedig ar gyfer gweithgarwch dilynol](#) ar waith, lle mae gweithgarwch arolygu yn nodi angen, ym mis Ionawr 2019, i gyd-fynd â chyflwyno gweithgarwch arolygu ar y cyd rhwng Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). Mae'r newidiadau hefyd yn cyd-fynd â'n gweithgarwch dilynol ar draws y gwahanol sectorau y mae Estyn yn eu harolygu.

Mae dau fath o weithgarwch dilynol ar gyfer darparwyr ôl-16, sef:

- Adolygu gan Estyn (monitro gan Estyn gynt)
- Ail-arolygu

Rydym wedi diweddarau ein [harweiniad dilynol ar gyfer darparwyr ôl-16](#) i esbonio'r manylion ynglŷn â'r trefniadau ar gyfer pob un o'r gweithgareddau dilynol hyn.

Mae un categori gweithgarwch dilynol ar gyfer arolygiadau gwasanaethau addysg llywodraeth leol, sef: 'yn destun pryder sylweddol'. Bydd Estyn yn cadeirio cynhadledd wella gydag uwch arweinwyr o'r awdurdod lleol a rhanddeiliaid allweddol eraill lle bo'n berthnasol, fel y consortiwm rhanbarthol. Tua blwyddyn ar ôl y gynhadledd wella ôl-arolygiad, bydd Estyn yn hwyluso cynhadledd ar gynnydd i werthuso cynnydd ers yr arolygiad, gwirio bod cynlluniau sy'n mynd i'r afael â diffygion yn cael yr effaith ddymunol a'u bod yn cael eu diweddarau'n briodol.

Mae ein cynllun dangosol ar gyfer gweithgarwch arolygu dilynol gan AEM yn 2019-2020 (gweler tudalen 12) yn seiliedig ar niferoedd y darparwyr a arolygwyd hyd at fis Mawrth 2019 y nodwyd bod angen gweithgarwch dilynol arnynt.

Yn ystod 2019-2020, byddwn:

- yn cyflwyno ein rhaglen arolygiadau craidd
- yn parhau i fonitro cynnydd darparwyr y nodwyd bod angen gweithgarwch dilynol arnynt yn eu harolygiad craidd
- yn cynnal cynadleddau gwella yn lle ymweliadau'r cynllun gweithredu ôl-arolygiad ag ysgolion sy'n cael eu gosod mewn categori statudol, ac yn parhau i ddefnyddio'r rhain ar gyfer ysgolion sydd mewn categori gweithgarwch dilynol am gyfnodau estynedig, lle na fu cynnydd yn ddigon cyflym
- yn defnyddio ein systemau sicrhau ansawdd i lywio blaenoriaethau hyfforddi a

datblygu ar gyfer arolygwyr, a llywio unrhyw ofynion sicrhau ansawdd ychwanegol

- yn darparu arweiniad a hyfforddiant i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i arolygwyr
- yn datblygu gwaith cyn-arolygiad i wirio cydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003 ar weithgareddau arolygu ysgolion annibynnol
- yn ymgynghori ynghylch, ac yn arbrofi â, gwahanol ddulliau arolygu a gweithgarwch dilynol ar gyfer UCDAu i helpu cefnogi gwelliant parhaol

Lleoliadau meithrin nas cynhelir

Byddwn yn datblygu ein trefniadau arolygu ar y cyd ag AGC ymhellach.

Yn ystod 2019-2020, byddwn:

- yn gwerthuso rhoi ein trefniadau arolygu newydd ar y cyd ar waith gydag AGC yn y sector meithrin nas cynhelir

Arolygu gwasanaethau addysg llywodraeth leol a chonsortia rhanbarthol

Yn ystod 2019-2020, byddwn:

- yn gwerthuso datblygiadau arolygu y gwnaethom arbrofi â nhw y llynedd mewn gwasanaethau addysg llywodraeth leol, gan gynnwys ystyried p'un a yw canolbwyntio ar gwestiynau arolygu lleol, sydd wedi'u teilwra i bob arolygiad, yn darparu gwerthusiad teg a thrylwyr o'r gwasanaethau hynny
- yn ystyried p'un a yw hepgor graddiadau crynodol yn cael unrhyw effaith negyddol ar ein gallu i ddarparu sicrwydd cyhoeddus ar ansawdd gwasanaethau addysg a ddarperir gan awdurdodau lleol
- yn datblygu ein trefniadau ar gyfer arolygu consortia rhanbarthol
- yn ymgynghori â'n rhanddeiliaid i helpu datblygu ein trefniadau ar gyfer arolygu consortia rhanbarthol

Addysg gychwynnol i athrawon

O 2019, bydd darparwyr newydd addysg gychwynnol i athrawon yng Nghymru. Mae pedair partneriaeth, sy'n cynnwys prifysgol a'u hysgolion arweiniol, wedi ennill achrediad dros dro, a byddant yn darparu addysg gychwynnol i athrawon o fis Medi 2019. Gallai rhagor o bartneriaethau ofyn am achrediad yn y blynyddoedd nesaf.

Fel rhan o'n hymrwymiad parhaus i gefnogi'r partneriaethau a achredwyd yn ddiweddar i gyflwyno addysg gychwynnol i athrawon o ansawdd da, yn ystod 2019-2020, byddwn:

- yn hwyluso digwyddiadau rhanddeiliaid bob dwy flynedd gyda'r sector addysg gychwynnol i athrawon
- yn cynnwys rhanddeiliaid yn ein bwrdd prosiect addysg gychwynnol i athrawon i ddatblygu ein methodoleg arolygu ac arbrofi â methodolegau arolygu peilot newydd yn y sector addysg gychwynnol i athrawon i wella effeithiolrwydd y ddarpariaeth
- yn hyfforddi arolygwyr cymheiriaid i'n galluogi i ddefnyddio dau arolygydd cymheiriaid ar bob arolygiad addysg gychwynnol i athrawon, a chyfrannu at ddysgu proffesiynol yn y sector
- yn monitro darparwyr addysg gychwynnol i athrawon presennol bob blwyddyn i gasglu tystiolaeth arolygu a chynnal deialog broffesiynol barhaus gyda'r sector

Arolygu dysgu oedolion yn y gymuned

Yn ystod 2019-2020, byddwn:

- yn gwerthuso'r datblygiadau arolygu y gwnaethom arbrofi â nhw yn Ionawr 2019, gan gynnwys ystyried gwahanol fodolau arolygu yn gysylltiedig â maint a chwmpas darpariaeth ar gyfer dysgu oedolion mewn partneriaethau, a rôl arolygwyr cymheiriaid ar draws y cyfnod arolygu
- yn datblygu ein trefniadau i fod yn hyblyg i unrhyw newidiadau i gyflwyno ac ariannu partneriaethau dysgu oedolion a allai gael eu cyflwyno

Gweithgarwch arolygu craidd a dilynol gan Arolygwyr Ei Mawrhydi (AEM) ac Arolygwyr Annibynnol 2019-2020

- nifer arfaethedig yr arolygiadau blynyddol yn arwain at adroddiadau
- darparwyr y mae angen gweithgarwch dilynol statudol arnynt¹
- darparwyr y mae angen eu monitro / eu hadolygu gan Estyn²

Lleoliadau meithrin nas cynhelir	90 ⁽³⁾	3	43
Ysgolion cynradd	184	16	43
Ysgolion uwchradd	30	19	22
Ysgolion pob oed	3	1	1
Ysgolion arbennig	8	1	2
Unedau cyfeirio disgyblion (UCD)	4	2	1
Ysgolion annibynnol ac ysgolion arbennig annibynnol	15	amh	amh
Gwasanaethau addysg llywodraeth leol	5	amh	0
Sefydliadau addysg bellach	2	amh	0
Colegau arbenigol annibynnol	2	amh	amh
Darparwyr dysgu yn y gwaith (DYYG)	3	2 ⁽⁴⁾	2
Dysgu oedolion (DO)	2	amh	3
Cymraeg i oedolion (CiO)	3	amh	0
Cyfanswm	349	44	117

Mae (1) a (2) yn seiliedig ar ddarparwyr y nodwyd bod angen gweithgarwch dilynol arnynt o fis Mawrth 2019. Gellir ymweld â rhai darparwyr fwy nag unwaith a gallai rhai ohonynt gael arolygiad wrth y ddesg.

(3) Cyflwynir yr arolygiadau hyn ar y cyd ag AGC. (4) Ail-arolygiadau yw'r rhain.

Cynllunio ar gyfer y dyfodol

Byddwn yn ymgynghori'n ffurfiol ar newidiadau i roi'r argymhellion yn '[Arolygiaeth Dysgu](#)' ar waith. Yn y lle cyntaf, byddwn yn ymgynghori ar gam cyntaf ein rhaglen newid: y flwyddyn bontio. Byddwn hefyd yn dechrau gwaith ar y prosiect arolygu a dilysu (cam 2 a 3).

Y flwyddyn bontio

Cyn cyflwyno'r cwricwlwm newydd yn 2022, bydd gennym rôl mewn cynorthwyo ysgolion i baratoi ar gyfer y newidiadau. I alluogi hyn, bydd Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar ymestyn y cylch arolygu presennol o saith i wyth mlynedd, fel y byddai arolygiadau ysgol yn cael eu hatal yn rhannol ar gyfer 2020-2021. Byddai hyn yn galluogi Estyn i weithio'n agos ag ysgolion am flwyddyn academiaidd gyfan. Bydd Estyn yn parhau i fonitro ysgolion sy'n destun pryder ac yn cadw'r hawl i gynnal arolygiad lle ceir pryderon am ansawdd addysg neu ddiogelu. Byddwn yn parhau i gynnal arolygiadau mewn sectorau nad ydynt yn ysgolion, sydd wedi eu heffeithio'n llai gan y diwygiadau.

Yn ystod 2019-2020, byddwn:

- yn parhau i ymgynghori ag AEM, arolygwyr cofrestredig (ACof), arolygwyr lleyg, consortia rhanbarthol a rhanddeiliaid eraill ar sut orau gall Estyn gynorthwyo ysgolion i gynllunio ar gyfer y cwricwlwm newydd yn ystod y flwyddyn bontio
- yn datblygu rhaglen o gynadleddau a seminarau i gefnogi'r cwricwlwm newydd
- yn datblygu rhaglen dysgu proffesiynol ar gyfer yr holl AEM, arolygwyr cofrestredig ac arolygwyr lleyg i'w helpu i gefnogi'r cwricwlwm, dysgu proffesiynol a diwygio ADY
- yn gweithio gydag arolygwyr cofrestredig i benderfynu sut orau i barhau i'w defnyddio yn ystod y flwyddyn pan gaiff arolygiadau eu hatal yn rhannol
- yn cytuno ar batrwm arolygu ar gyfer lleoliadau nas cynhelir, ysgolion annibynnol a darparwyr ôl-16 yn ystod y flwyddyn pan gaiff arolygiadau eu hatal yn rhannol

Arolygu a dilysu

Yn ystod y flwyddyn bontio, byddwn yn rhoi ail gam ein cynllun newid ar waith trwy gyflwyno trefniadau arolygu newydd o fis Medi 2021. Bydd hyn yn galluogi i ni ystyried newidiadau fel y cwricwlwm newydd a hunanwerthuso o fewn ein trefniadau arolygu. Hefyd, byddwn yn ymgynghori ar ddod â graddiadau crynodol i ben yn raddol.

Yn ystod 2019-2020, byddwn:

- yn ymgynghori â rhanddeiliaid i lywio ein dulliau arolygu ar ôl y flwyddyn bontio
- yn dechrau datblygu trefniadau arolygu newydd
- yn arbrofi â gwahanol ddulliau arolygu, a rhoi cynnig arnynt

Y nodau llesiant a'r egwyddor datblygu cynaliadwy

Mae **Cymru lewyrchus** yn dibynnu ar boblogaeth fedrus sydd wedi cael addysg dda. Gwaith craidd Estyn yw adrodd ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant, sydd â'r nod o ddatblygu dysgwyr galluog, uchelgeisiol, sy'n barod i ddysgu ar hyd eu hoes. Yn benodol, mae ein harweiniad arolygu yn pwysleisio pwysigrwydd cynnwys yr ysgol neu'r darparwr yn llawn yn yr arolygiad, cael safbwynt dysgwyr a rhanddeiliaid a chymwysu'r egwyddor cydraddoldeb i'r Gymraeg a'r Saesneg ar gyfer ein holl waith arolygu.

Rhoddir lle amlwg i **les** yn ein fframwaith arolygu. Mae'n ofynnol i arolygwyr edrych ar safonau lles dysgwyr, gan gynnwys eu hagweddau at gadw'n iach a diogel, a'r ddarpariaeth a wna darparwr. Mae enghraifft o arfer effeithiol wedi'i chofnodi yn ein hastudiaeth achos [Creu ysgol feithringar trwy ymagwedd gynhwysol at les](#). Mae ein fframwaith arolygu yn ei gwneud yn ofynnol i arolygwyr ystyried pa mor dda y mae darparwr yn gweithio gyda phartneriaid strategol, gan gynnwys grwpiau cymunedol. Canolbwyntir ar effaith y partneriaethau hyn ar les a lleihau effaith tlodi. Un astudiaeth achos yn y maes hwn yw [Partneriaeth gymunedol yn cefnogi dysgwyr dan annatais](#).

Mae Estyn yn ymdrechu i gyfrannu at **gyfrifoldeb byd-eang** ac mae arolygwyr yn gwerthuso pa mor dda y mae ysgolion yn helpu disgyblion i ddatblygu dealltwriaeth o'u **diwylliant**, y **gymuned leol** a'r **byd ehangach**. Mae arolygwyr yn ystyried pa mor dda y mae'r ysgol yn paratoi disgyblion i fod yn ddinasyddion gweithgar a gwneud penderfyniadau am fywyd a gwaith yr ysgol. Maent yn ystyried cyfranogiad disgyblion wrth wneud penderfyniadau ar lefel ysgol, gan gynnwys y cyfleoedd a gânt i ddylanwadu ar beth maent yn ei ddysgu, a sut, ac effeithiolrwydd y cyngor ysgol a grwpiau disgyblion eraill, er enghraifft y pwyllgor eco.

Wrth edrych ymlaen, bydd ein gwaith gydag ysgolion i gefnogi diwygio'r cwricwlwm yn hanfodol o ran gwella dysgu pobl ifanc yng Nghymru.

Rydym yn arolygu sampl gynrychioliadol o ysgolion a darparwyr bob blwyddyn, ond pan fo'r dystiolaeth yn dangos pryderon sylweddol am ddarparwr, gallai hyn achosi i ni flaenoriaethu'r darparwr hwnnw ar gyfer arolygiad. Mae ein cynadleddau gwella yn ddull **ataliol** arall, a ddefnyddir ochr yn ochr â'n proses arolygu ffurfiol.

Rydym yn **cynnwys** ac yn **cydweithio** â staff a rhanddeiliaid allanol yn rheolaidd. Yn 2019-2020, byddwn yn datblygu rhaglen o gynadleddau a seminarau i gefnogi'r cwricwlwm newydd.

Mae meddwl **integredig** yn helpu i ni **gydweithio** o fewn Estyn a gydag arolygiaethau eraill i gefnogi gwelliant. Rydym yn gwneud gwaith arolygu ar y cyd ag arolygiaethau eraill a chyrrff rheoleiddio, gan gydlynu a chynllunio gweithgareddau fel eu bod yn arwain at raglenni gwaith cymesur sy'n osgoi dyblygu ac yn sicrhau bod risgiau a phryderon allweddol yn cael eu harchwilio.

PHOTO REDACTED DUE TO THIRD PARTY RIGHTS OR OTHER LEGAL ISSUES




Ein trefniadau presennol

Sut rydym yn darparu cyngor

Mae gan Estyn rôl unigryw o ran llywio polisi cenedlaethol oherwydd bod ein cyngor wedi ei seilio ar dystiolaeth uniongyrchol a arsylwyd o effaith polisi ar y dysgwyr. Mae arolygwyr yn arsylwi addysgu a dysgu, yn craffu ar waith dysgwyr, yn holi dysgwyr am eu hastudiaethau ac yn cynnal cyfarfodydd ag ymarferwyr ac arweinwyr y rheng flaen. Rydym yn archwilio pa mor dda y mae bwriadau polisi yn gweithio'n ymarferol i gyflawni'r deilliannau gorau ar gyfer dysgwyr. Mae cyngor yn seiliedig ar arolygu yn wahanol i'r cyngor a ddarperir gan ymchwilwyr academiaidd gan ei fod yn seiliedig ar farn broffesiynol arolygwyr profiadol a fu'n ymarferwyr.

Caiff y berthynas rhwng y dysgwyr, y llywodraeth ac Estyn ei chrynhai yn y diagram isod. Rydym yn arolygu gweithrediad ac effaith polisi ar y dysgwyr ac yn rhoi adborth a chynghor i'r llywodraeth i lywio rhagor o ddatblygiadau polisi.



Bob blwyddyn, mae'r Gweinidog Addysg yn ysgrifennu llythyr 'cylch gwaith' at PAEM yn gofyn am adroddiadau thematig penodol, cyfraniad Estyn at weithgorau, a chynghor a chymorth arall. Gellir gweld manylion ynghylch [pam rydym yn rhoi cyngor](#) ar ein gwefan. Gallwch weld ein llythyrau cylch gwaith trwy fynd at wefan Llywodraeth Cymru yn [Codi safonau mewn ysgolion – Cylch Gwaith Estyn – Llythyrau Cylch Gwaith](#).

Adroddiad Blynyddol PAEM

Mae Deddf Addysg 2005 yn ei gwneud yn ofynnol i Brif Arolygydd Ei Mawrhydi gyflwyno Adroddiad Blynyddol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae Adroddiad Blynyddol y Prif Arolygydd yn crynhoi canfyddiadau arolygiadau o bob sector a arolygwyd yn ystod y flwyddyn academiaidd. Mae hefyd yn rhoi trosolwg o themâu pwysig yn ymwneud ag addysg a hyfforddiant ar sail ein hadroddiadau thematig a ffurfiau eraill o dystiolaeth. Yn dilyn argymhelliad yn 'Arolygiaeth Dysgu', bydd adroddiad 2018-2019 yn drosolwg manylach o ran 'cyflwr y genedl o system addysg Cymru, gan ddefnyddio tystiolaeth arolygiadau a thystiolaeth arall, gan gynnwys canlyniadau PISA.

Mae'r Prif Arolygydd yn ymddangos gerbron Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg Cynulliad Cenedlaethol Cymru i ateb cwestiynau am yr Adroddiad Blynyddol ac mae'r pwyllgor yn cyhoeddi adroddiad craffu ar ei sail. Bydd Aelodau'r Cynulliad yn trafod yr adroddiad mewn sesiwn lawn yn y Senedd.

Arolygon/adroddiadau thematig

Mae adroddiadau thematig, sydd hefyd yn cael eu galw'n adroddiadau 'cyloch gwaith' neu adroddiadau arolwg, yn ffordd bwysig yr ydym yn llywio polisi cenedlaethol. Mae llythyr cyloch gwaith blynyddol y Gweinidog at y Prif Arolygydd yn ein comisiynu i ddarparu tua 15 o adroddiadau thematig gwahanol bob blwyddyn. Ambell waith, os bydd angen ac os bydd adnoddau'n caniatáu, byddwn yn cynhyrchu a chyhoeddi adroddiad thematig nad yw wedi ei gomisiynu gan Lywodraeth Cymru.

Yn 2019-2020, byddwn yn parhau i gyhoeddi ein [hadroddiadau thematig](#) ar ein gwefan. Byddwn hefyd yn parhau i ddefnyddio arolygwyr cymheiriaid hyfforddedig yn rhan o'r tîm arolygwyr ar ymweliadau ag ysgolion a darparwyr i gasglu tystiolaeth ar gyfer ein harolygon thematig. Ar gyfer dau o'n harolygon thematig, byddwn hefyd yn lledaenu ein canfyddiadau trwy gynhadledd arfer orau neu drwy ddatblygu adnoddau i ysgolion a darparwyr eu rhannu ymhlith y consortia rhanbarthol a'u sectorau.

Gellir gweld y rhestr o [waith arolygon thematig cynlluniedig ar gyfer 2019-2020](#) ar ein gwefan.

Cyfarfodydd â Gweinidogion a swyddogion Llywodraeth Cymru

Mae'r Prif Arolygydd a'i gyfarwyddwyr strategol yn cyfarfod â Gweinidogion a swyddogion Llywodraeth Cymru yn rheolaidd i drafod datblygiadau polisi addysg a materion cyfredol ym mhob un o'r sectorau addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Mae ein harolygwyr yn cyfarfod â swyddogion Llywodraeth Cymru yn rhan o'r broses o baratoi arolygon thematig, yn cymryd rhan mewn ymgynghoriadau a gweithgorau, ac yn rhoi cyngor ar sail tystiolaeth uniongyrchol o arolygiadau a gwybodaeth broffesiynol am sectorau a meysydd dysgu.

Yn 2019-2020, byddwn yn parhau i gyfarfod â Gweinidogion a swyddogion Llywodraeth Cymru yn rheolaidd i roi cyngor a chymorth ym mhob un o'r sectorau addysg a hyfforddiant rydym yn eu harolygu.

Tystiolaeth ysgrifenedig a llafar i bwyllgorau Cynulliad Cenedlaethol Cymru

O bryd i'w gilydd, gofynnir i PAEM ac AEM eraill gyflwyno tystiolaeth i bwyllgorau, neu fynychu pwyllgorau, Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n cyflawni swyddogaeth craffu ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac, yn hynny o beth, maent yn drawsbleidiol ac yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Bob blwyddyn, mae PAEM yn mynychu cyfarfod y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i drafod Adroddiad Blynyddol PAEM. Yn ystod 2018-2019, fe wnaethom hefyd gyflwyno tystiolaeth yn y Pwyllgor hwn ynglŷn â Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru). Rhoesom dystiolaeth ysgrifenedig i'r pwyllgor hwn ar gyfer yr ymchwiliad i gynnydd ar Ddiwygio'r Cwricwlwm a'r papur Gwyn ar ddeddfwriaeth ar gyfer y cwricwlwm newydd, yn ogystal â'r ymchwiliad i gymhwyster Bagloriaeth Cymru. Rydym yn darparu tystiolaeth ar y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol i Bwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau. Rydym yn disgwyl cael ein galw i ddarparu ystod debyg o dystiolaeth yn 2019-2020.

Cyngor i weithgorau a phaneli Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn gofyn i ni roi cyngor a chymorth i ystod o weithgorau, trwy sylwadau neu gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig. Mewn rhai achosion, cawn ein gwahodd yn ffurfiol gan y Gweinidog Addysg i fynychu gweithgor neu banel penodol. Mewn achosion eraill, cawn ein gwahodd gan un o swyddogion Llywodraeth Cymru i ymuno â gweithgor i roi cyngor ar ddatblygu polisi. Gallem ddarparu cymorth i weithgorau amrywiol trwy sylwadau, cyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig neu drafod ag uwch swyddogion y Gyfarwyddiaeth Addysg

Mae rhestr y [cyfraniadau i weithgorau 2019-2020](#) ar gael ar ein gwefan.

Ymatebion i ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru

Yn ystod 2019-2020, byddwn yn parhau i ymateb i ymgynghoriadau a rhoi cyngor a chymorth ad hoc ar faterion yn ymwneud ag addysg a hyfforddiant. Ar sail ffigurau 2018-2019, rhagwelwn y byddwn yn ymateb i oddeutu 20 o ymgynghoriadau.

Byddwn yn cydlynu ein hymdrechion o ran llywio datblygiad polisi cenedlaethol ac ysgogi gwelliant yn ein harferion gweithredol i gyflawni yn y maes hwn.

Byddwn hefyd yn parhau i ymateb yn brydlon i ymholiadau sy'n cael eu hanfon i'n bwllch post Ymholiadau.

Cyngor a chymorth i Lywodraeth Cymru mewn meysydd eraill

Yn 2019-2020, rydym yn disgwyl y byddwn yn parhau i roi cyngor a chymorth yn y meysydd canlynol:

- Cynigion i gau ac ad-drefnu ysgolion
- Lleoliadau i ddisgyblion â datganiad o anghenion addysgol arbennig, lle mae angen caniatâd penodol Gweinidogion Cymru dan adran 347(5)(b) Deddf Addysg 1996
- Monitro ysgolion annibynnol a gymeradwywyd o dan adran 347(1) Deddf Addysg 1996 i dderbyn disgyblion â datganiadau o anghenion addysgol arbennig (AAA), yn gyffredinol, ac sydd â disgyblion ag AAA ar y gofrestr, yn flynyddol; neu ysgol annibynnol a gofrestrwyd i dderbyn disgyblion ag AAA dan adran 158 Deddf Addysg 2002 ac sydd â disgyblion AAA ar y gofrestr
- Arolygu a monitro pob coleg arbenigol annibynnol yng Nghymru yn flynyddol, a darparu arolygydd yn rhan o dîm ar arolygiadau neu ymweliadau monitro blynyddol colegau arbenigol annibynnol yn Lloegr sydd â 10 neu fwy o ddysgwyr o Gymru yn cael eu hariannu i fynychu
- Cofrestru ysgolion annibynnol. Yn benodol, yn ystod 2019-2020, byddwn yn darparu cyngor i Lywodraeth Cymru gan eu bod yn ailgofrestru ysgolion annibynnol ar sail y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol y gallant ei chynnig o dan drefniadau newydd o dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018

- Grant datblygu disgyblion
- Grant gwella addysg i ysgolion
- Datblygu cymwysterau a threfniadau arolygu ar gyfer unrhyw hyfforddiant cychwynol newydd i athrawon, a gofynion datblygiad proffesiynol parhaus i athrawon, tiwtoriaid a hyfforddwyr yn y sector dysgu gydol oes
- Ysgolion sy'n peri pryder
- Gwaith dilynol yn ymwneud ag awdurdodau addysg lleol
- Enwebiadau anrhydeddu
- Gwybodaeth gefndir ar gyfer ymweliadau Gweinidogion ag ysgolion
- Cwestiynau'r Cynulliad

Cynllunio ar gyfer y dyfodol

Mae Prosiect allweddol ar gyfer 2019-2020 yn darparu cyngor i lywio polisi cenedlaethol. Byddwn hefyd yn parhau i ddarparu cyngor a chymorth ar gyfer diwygio addysg.

Darparu cyngor i lywio polisi cenedlaethol

Bydd y prosiect hwn yn cynnwys cryfhau ein gwaith thematig ac Adroddiad Blynyddol PAEM.

Yn ystod 2019-2020, byddwn:

- yn datblygu cynllun tair blynedd ar gyfer ein hadroddiadau thematig, adroddiadau pwnc a gwaith ymchwil
- yn ymgynghori â rhanddeiliaid ynghylch themâu ar gyfer ein hadroddiadau thematig yn y dyfodol
- yn arbrofi â gwahanol ddulliau, er enghraifft cynnal fforymau athrawon i gasglu eu barn ar destunau thematig ac effaith yr adroddiadau hyn ar arfer
- yn ymgynghori ynghylch blaenoriaethau ar gyfer adroddiadau pwnc yn y dyfodol trwy ymweliadau ein harolygwyr cyswllt ag awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol, colegau addysg bellach a darparwyr dysgu yn y gwaith
- yn datblygu strategaeth ymchwil addysgol Estyn i ategu'r strategaeth genedlaethol
- yn caffael hyfforddiant i gefnogi dealltwriaeth staff Estyn o fethodolegau ymchwil addysgol

Cymorth ar gyfer diwygio addysg

Mae'r prosiect hwn yn cynnwys darparu cyngor a chymorth ar gyfer rhaglen rhwydwaith ysgolion arloesi Llywodraeth Cymru, a chynrychiolaeth AEM ar weithgorau ar gyfer meysydd dysgu a phrofiad, dysgu proffesiynol a grwpiau gweithredu eraill ar gyfer prosiect diwygio'r cwricwlwm.

Yn ystod 2019-2020, byddwn:

- yn nodi a rhannu arfer ddiddorol, trwy waith arolygu a gwaith thematig
- yn cynnal arolygiadau thematig yn 2019-2020 a fydd yn canolbwyntio ar agweddau penodol ar ddiwygio'r cwricwlwm, gan gynnwys sut mae ysgolion uwchradd yn paratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd

Byddwn yn parhau i gefnogi gwaith tuag at roi diwygiadau anghenion dysgu ychwanegol (ADY) ar waith yn y dyfodol trwy waith thematig penodol a thrwy nodi a rhannu arfer ddiddorol yn ystod arolygiadau.

Byddwn hefyd yn cynnal un arolygiad thematig neu fwy bob blwyddyn i ddarparu cyngor a rhannu arfer effeithiol, sy'n cynorthwyo dysgwyr sy'n agored i niwed ac yn datblygu ysgolion cryf a chynhwysol. Yn ystod blwyddyn 2019-2020, byddwn yn edrych ar:


- les emosiynol ac iechyd meddwl
- darpariaeth ar gyfer disgyblion anabl

Y nodau llesiant a'r egwyddor datblygu cynaliadwy

Mae gennym rôl allweddol o ran llywio a datblygu polisi cenedlaethol. Bydd adolygiadau thematig Estyn sydd ar ddod yn cyfrannu mewn ffyrdd amrywiol at y nodau llesiant. Mae'r tabl canlynol yn rhoi rhestr lawn o adroddiadau thematig 2018-2019 Estyn (i'w cyhoeddi yn 2019) ac adroddiadau thematig 2019-2020 (i'w cyhoeddi yn 2020) ac mae'n dangos sut bydd y rhain yn cyfrannu at y nodau llesiant.

Sut mae adroddiadau thematig Estyn yn cyfrannu at nodau llesiant Llywodraeth Cymru

Ein diben cyffredin – y saith nod llesiant i Gymru




Gwaith thematig a wnaed yn 2018-2019 ac i'w gyhoeddi yn 2019

Paratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd: blwyddyn 3 (Dysgu Proffesiynol)	1						
Pa mor dda y mae ysgolion yn cefnogi iechyd a lles disgyblion	1	3	4	5			
Darpariaeth ADY mewn ysgolion prif ffrwd	1	3	4	5			
Ysgolion ffederal – nodweddion cyffredin cydweithio effeithiol	1						
Gofalwyr ifanc	1	3	4	5			
Adolygiad Safon Uwch – astudiaethau cymdeithasol	1						
Partneriaethau rhwng ysgolion a chyflogwyr	1		4	5		7	
Darpariaeth ar gyfer dysgwyr o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr a Lleiafrifoedd Ethnig	1		4	5	6		
Cymorth i ddysgwyr sydd wedi cael Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod	1						
Sut caiff yr agenda Atal ei hymgorffori mewn ysgolion		3		5			7
Effeithiolrwydd pwyllgorau rheoli UCD	1		4			6	



Ein hadroddiadau thematig 2019-2020 (i'w cyhoeddi yn 2020)




Wrth ystyried yr egwyddor datblygu cynaliadwy, rydym yn **cynnwys** partneriaid allanol, ac yn **cydweithio** â nhw, yn rheolaidd. Er enghraifft, rydym yn **cydweithio** ag ystod o randdeiliaid i gynnal ein hadolygiadau thematig, darparwyr addysg a gwasanaethau cymorth yw'r rhai mwyaf nodedig, ac yn **cynnwys** y rheiny sydd â rhan mewn gwella addysg, gan gynnwys y dysgwyr eu hunain. Yn ystod 2019, byddwn yn cyhoeddi adolygiadau thematig a fydd yn cyfrannu at ein gwaith ar **gydweithio**: 'Ysgolion ffederal – nodweddion cyffredin cydweithio effeithiol' a 'Partneriaethau rhwng ysgolion a chyflogwyr'.

Mae arolygiadau thematig yn helpu **atal** problemau mewn addysg a hyfforddiant sy'n dod i'r amlwg neu'n gwaethygu trwy nodi polisïau neu arferion nad ydynt o fudd i ddysgwyr nac yn cefnogi ansawdd darpariaeth addysgol a darpariaeth gysylltiedig. Yn ystod 2019, byddwn yn cyhoeddi adolygiad thematig o'r modd y mae'r agenda 'Atal' i oresgyn eithafiaeth yn cael ei hymgorffori mewn ysgolion.

O ran meddwl **integredig**, yn ddiweddar, cyhoeddodd Estyn [Gwasanaethau Cymorth leuenctid yng Nghymru – Gwerth Gwaith leuenctid](#). Yr adroddiad hwn yw'r cyntaf mewn cyfres sy'n deillio o brosiect ar y cyd yn archwilio materion yn ymwneud â chymorth i bobl ifanc yng Nghymru. Estyn, Arolygiaeth Gofal Cymru, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru sy'n ymgymryd â'r prosiect hwn, gan weithio gyda'i gilydd fel Arolygu Cymru.

Mae ein gwaith thematig a fydd yn cael ei gyhoeddi yn 2019 a 2020, fel yr amlinellir yn y graffeg uchod, yn cynnwys ffocws clir ar anghenion **tymor hir** dysgwyr a datblygu system addysg a hyfforddiant gynaliadwy i ddiwallu'r anghenion hyn. Yn benodol, yn ystod 2019, byddwn yn cyflwyno adolygiad thematig, sef 'Paratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd: blwyddyn 3 (dysgu proffesiynol)'. Yr adolygiad hwn yw'r trydydd mewn cyfres o dri adroddiad ar gynllunio ar gyfer y cwricwlwm newydd. Bydd yn gwerthuso dysgu proffesiynol ar draws y consortia rhanbarthol.

PHOTO REDACTED DUE TO THIRD PARTY RIGHTS OR OTHER LEGAL ISSUES



Ein trefniadau presennol

Sut rydym yn meithrin gallu ar gyfer gwella

Mae gweithgarwch arolygu a thematig Estyn yn ein rhoi ni mewn sefyllfa gref i werthuso ansawdd y sector addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Byddwn yn defnyddio'r dystiolaeth a'r wybodaeth hon i helpu darparwyr i feithrin eu gallu eu hunain i wella. Mae ein hyfforddiant ar gyfer arolygwyr cymheiriaid ac ymgynghorwyr her yn galluogi arweinwyr mewn ysgolion a staff mewn consortia rhanbarthol i ddatblygu llawer o'r medrau sy'n ategu hunanwerthuso a chynllunio gwelliant. Mae adborth gan arolygwyr am ansawdd ein hyfforddiant yn gadarnhaol iawn bob amser

Yn ystod 2019-2020, bydd Estyn yn edrych ar sut y gallwn gryfhau rhannu a hyrwyddo astudiaethau achos sy'n dangos arfer arloesol neu ddiddorol. Mae angen cynyddu gallu darparwyr i wella ymhellach, yn enwedig am mai hunanwerthuso a chynllunio gwelliant yn aml yw'r agwedd wannaf ar waith ysgol.

Mae amcan strategol tri yn cynnig llawer o gyfleoedd i ategu gallu ar draws darparwyr. Fodd bynnag, mae ystod y gweithgareddau y gellir ei chynnig wedi'i chyfyngu gan yr adnoddau sydd ar gael ar ôl i ni gwblhau ein gwaith statudol ar gyfer amcanion strategol un a dau.

Arolygwyr cymheiriaid, ymgynghorwyr her a myfyrwyr arolygu

Byddwn yn parhau i hyfforddi arolygwyr cymheiriaid, arolygwyr ychwanegol ac ymgynghorwyr her. Y llynedd, fe wnaethom ddarparu hyfforddiant diweddarau gwerthfawr i gefnogi'r trefniadau arolygu newydd. Eleni, bydd hyfforddiant diweddarau yn cynnwys arweiniad pwysig ar gyfer arolygwyr ar gynorthwyo ysgolion a lleoliadau wrth iddynt baratoi ar gyfer diwygio'r cwricwlwm, ac ymateb i Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018.

Arolygwyr cymheiriaid

Byddwn yn parhau â'n rhaglen hyfforddi ar gyfer arolygwyr cymheiriaid, sy'n dod â staff o ddarparwyr i ymuno â'n timau arolygu. Mae arolygwyr cymheiriaid yn mynd yn ôl i'r ysgol neu'r darparwr arall gyda gwybodaeth gynyddol am y broses arolygu a phrofiadau o fod wedi ymweld â darparwyr eraill, a'u harolygu.

Caiff y rhaglen arolygwyr cymheiriaid ei gwerthfawrogi'n fawr gan ddarparwyr, a byddwn yn parhau i ddefnyddio arolygwyr cymheiriaid yn ein harolygiadau. Byddwn yn parhau i gynnwys arolygwyr cymheiriaid mewn gwaith arolygon thematig, ac o Fedi 2019 mewn llawer o arolygiadau ysgolion, bydd dau arolygydd cymheiriaid.

Defnyddir arolygwyr cymheiriaid sydd â phrofiad arbenigol mewn ADY, pan fo modd, i arolygu dosbarthiadau arbenigol awdurdodau lleol sydd wedi eu lleoli mewn ysgolion prif ffrwd. Byddwn yn rhoi rhagor o arweiniad i'r arolygwyr hyn fel rhan o'n rhaglen barhaus o ddigwyddiadau hyfforddiant diweddarau.

Ar hyn o bryd, mae aelodau staff tua hanner yr 11 darparwr Cymraeg i oedolion wedi cael eu hyfforddi i fod yn arolygwyr cymheiriaid. Ein nod yw sicrhau bod gan bob

darparwr o leiaf ddau arolygydd cymheiriaid hyfforddedig, un sy'n uwch reolwr a'r llall yn diwtor neu'n swyddog datblygu.

Yn ystod 2019-2020, byddwn:

- yn canolbwyntio ar gynyddu nifer yr arolygwyr cymheiriaid sydd ar gael i weithio yn Gymraeg, yn ogystal â chynyddu capasiti mewn ychydig o sectorau i gefnogi rhoi trefniadau arolygu newydd ar waith
- yn cynnal hyfforddiant cychwynnol ar gyfer arolygwyr cymheiriaid newydd i arolygu darparwyr Cymraeg i oedolion a phartneriaethau dysgu oedolion
- yn cyflwyno hyfforddiant cychwynnol ar gyfer arolygwyr cymheiriaid ar draws y sectorau arolygu ôl-16, gan gynnwys hyfforddi arolygwyr cymheiriaid o ddarpariaeth dysgu a medrau mewn carchardai am y tro cyntaf

Arolygwyr lleyg

Rydym wedi adolygu rôl arolygwyr lleyg mewn arolygiadau, ac rydym yn cynyddu capasiti trwy hyfforddi llywodraethwyr. Yn ogystal â chynyddu ein capasiti o ran arolygwyr lleyg, trwy gymryd rhan mewn arolygiadau, bydd llywodraethwyr yn mynd yn ôl i'w swyddi ar ôl ennill dealltwriaeth ehangach o'u rôl yn cynorthwyo ysgolion i wella.

Yn ystod 2019-2020, byddwn:

- yn gwerthuso ac yn adolygu'r cyfraniad a wneir at ddysgu personol a phroffesiynol trwy fod yn arolygydd lleyg; bydd y canfyddiadau ar gael eleni

Ymgynghorwyr her

Byddwn yn parhau â'n rhaglen hyfforddi ar gyfer ymgynghorwyr her gwella ysgolion consortia rhanbarthol. Mantais hyn yw eu bod yn cael eu hyfforddi i allu gweithio ochr yn ochr ag arolygwyr Estyn ar arolygiadau, sy'n fuddiol i Estyn wrth iddo ehangu ein cronfa o staff arolygu. Wedyn, bydd ymgynghorwyr her yn mynd yn ôl at eu gwaith yn y consortia rhanbarthol gyda dealltwriaeth well o'r broses arolygu, a fydd yn eu helpu yn eu rôl.

Myfyrwyr arolygu

Byddwn yn cryfhau llais y dysgwyr yn ein harolygiadau o golegau addysg bellach. Gwahoddwyd colegau i argymhell hyd at dri myfyriwr presennol i wneud cais i hyfforddi i fod yn ddysgwyr arolygu, a bydd hyfforddiant yn digwydd yn ystod tymor yr haf 2019. Bydd y myfyrwyr arolygu yn ymgysylltu â dysgwyr i fesur eu profiadau o'r coleg, eu lles a'u dirnadaeth o'u cynnydd.

Yn ystod 2019-2020, byddwn:

- yn arbrofi â chynnwys dau 'fyfyriwr arolygu' hyfforddedig ar ein harolygiadau addysg bellach

Arolygwyr cyswllt

Mae gennym dimau o arolygwyr cyswllt ar gyfer awdurdodau lleol, sefydliadau addysg bellach a darparwyr hyfforddiant yn y gwaith. Mae'r rhain yn arolygwyr mewnol Estyn sy'n ymweld â darparwyr yn rheolaidd i fonitro, herio a chefnogi eu gwaith. Dros gyfnod, mae'r arolygydd cyswllt yn ennill dealltwriaeth fanwl o'r darparwr a gall helpu'r darparwr ar ei daith wella.

Bydd ein harolygwyr cyswllt awdurdodau lleol (ACALLau) yn gweithio mewn parau i fonitro a herio awdurdodau lleol ynghylch perfformiad a chynnydd eu hysgolion a'u gwasanaethau addysg. Mae hyn yn helpu awdurdodau lleol i ddeall eu cryfderau a'r meysydd y mae angen iddynt eu datblygu yn well. Bydd ACALLau yn cynnal perthynas waith adeiladol â'r awdurdod ac yn rhannu arfer orau, lle bo hynny'n berthnasol.

Yn ogystal, mae gan bob consortiwm rhanbarthol arolygydd cyswllt. Bydd pob arolygydd cyswllt yn un o'r ACALLau sy'n gweithio yn y rhanbarth. Byddant yn monitro ac yn herio'r consortiwm rhanbarthol ynghylch y gwasanaethau gwella ysgolion a'r effaith ar berfformiad a chynnydd mewn ysgolion. Bydd y wybodaeth a gesglir trwy ymweliadau ymgysylltu hefyd yn rhoi tystiolaeth uniongyrchol i arolygwyr cyswllt o'r cynnydd a wneir gan ysgolion mewn meysydd blaenoriaeth cenedlaethol allweddol, er enghraifft eu parodwydd o ran rhoi'r cwricwlwm newydd ar waith, ac effeithiolrwydd eu prosesau hunanwerthuso.

Lledaenu astudiaethau achos

Byddwn yn parhau i nodi arfer sy'n ddiddorol, arloesol sy'n haeddu cael ei hefelychu, pa le bynnag y caiff ei gweld trwy ein gwaith arolygu a thematig. Byddwn yn cyhoeddi ac yn hyrwyddo'r astudiaethau achos hyn ar ein gwefan.

Yn ogystal, rydym yn archwilio ffyrdd mwy effeithiol o rannu a chyfleu'r astudiaethau achos hyn â chynulleidfa ehangach, trwy ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol. Byddwn yn cofnodi enghreifftiau o arfer arloesol neu ddiddorol ac yn eu defnyddio fel astudiaethau achos, er nad yw'r barnau cyffredinol efallai'n rhagorol. Bydd hyn yn ein helpu i hyrwyddo ystod ehangach o arfer ddiddorol, a fydd yn helpu meithrin gallu yn y system ehangach.

Yn ystod 2019-2020, byddwn:

- yn rhannu a lledaenu'r pecyn cymorth hunanwerthuso ar gyfer gwella gyda staff ysgolion, awdurdodau lleol a chonsortia; bydd yr offer, y dulliau, yr astudiaethau achos arfer effeithiol a'r sbardunau yn y pecyn cymorth yn helpu ysgolion yn yr agwedd bwysig hon ar eu gwaith

Dathlu arfer ragorol

Yn 2019, byddwn yn cynnal ein pedwaredd noson wobrau flynyddol. Bydd y noson wobrau'n gyfle i gydnabod a dathlu arfer effeithiol a diddorol ar draws ystod o ddarparwyr.

Ein gwefan

Mae ein gwefan yn adnodd hanfodol i unrhyw un sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant. Mae'n darparu mynediad rhwydd at ein hadroddiadau arolygu a thematig, astudiaethau achos o arfer effeithiol o ysgolion a darparwyr eraill, a gwybodaeth am bwy ydym a beth rydym yn ei wneud. Rydym yn annog defnyddwyr i gofrestru i gael diweddariadau rheolaidd trwy'r e-bost a defnyddio ffrydiau RSS i gael y wybodaeth ddiweddaraf, a chysylltu sianelau digidol eraill fel y cyfryngau cymdeithasol â'r wefan. Byddwn yn parhau i sicrhau bod pob cyfathrebu allanol yn cyfeirio ein rhanddeiliaid at y wefan, bod y cynnwys yn gyfoes a bod gwelliannau'n cael eu gwneud lle bynnag y bo modd. Mae gwefan Estyn yn gyfrwng pwysig ar gyfer cyfleu ein gwaith, ac rydym yn bwriadu gwella ei hymarferoldeb a'i rhwyddineb defnyddio yn barhaus.

Cynllunio ar gyfer y dyfodol

Agwedd allweddol ar raglen newid yr 'Arolygiaeth Dysgu' yw datblygu rôl 'diriogaethol' ar gyfer arolygwyr.

Gwaith arolygwyr ardal ac ymweliadau ymgysylltu

Yn ystod 2019-2020, byddwn:

- yn datblygu ymweliadau ymgysylltu ac yn ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol ynghylch diben a chwmpas yr ymweliadau hyn
- yn arbrofi ag ymweliadau ymgysylltu yn ystod tymor yr hydref 2019 ac yn cyflwyno'r gwaith yn raddol yng ngwanwyn a haf 2020

Bydd arolygwyr yn ymgysylltu ag ysgolion mewn ymweliad anffurfiol, cefnogol y tu allan i'r trefniadau arolygu ac adolygu thematig. Bydd arolygwyr yn helpu rhoi gwybodaeth gyfredol i Estyn am y cynnydd mae'r ysgol yn ei wneud mewn perthynas â blaenoriaethau cenedlaethol, gan gynnwys ei phrosesau gwella a datblygu'r cwricwlwm.

Gall ymweliadau ymgysylltu gyfrannu at gyflawni dyletswydd ehangach Estyn i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i Weinidogion a darparu cyngor ar unrhyw fater yn gysylltiedig ag ysgolion. Yn ymarferol, rydym hefyd yn ceisio bod yn gymwynasgar pan fyddwn yn ymweld ag ysgolion yn casglu gwybodaeth. Mae unrhyw gyngor, arweiniad neu eglurhad rydym yn eu rhoi yn cyd-fynd â'r cyngor a gyhoeddir ar ein gwefan mewn adroddiadau thematig a blynyddol.

Y nodau llesiant a'r egwyddor datblygu cynaliadwy

Ein nod yw datblygu dysgwyr uchelgeisiol, medrus sy'n barod i ddysgu trwy gydol eu hoes. I'r perwyl hwn, rydym yn meithrin gallu mewn cyflwyno addysg a hyfforddiant trwy gyhoeddi astudiaethau achos arfer orau a chynnal cynadleddau 'arwain a gwella' ar gyfer darparwyr.

Mae astudiaethau achos a gyhoeddwyd yn ddiweddar sy'n cyfrannu at **Gymru lewyrchus** yn cynnwys [System olrhain yn helpu disgyblion i gyflawni targedau](#) a [Rhoi'r grym i fyfyrwyr archwilio llwybrau addysg gwahanol](#).

Rydym wedi cyhoeddi arweiniad atodol yn gysylltiedig â **Chymru iachach**, er enghraifft, [Arweiniad atodol: arolygu diogelu mewn lleoliadau nas cynhelir](#), [Arweiniad atodol: arolygu diogelu mewn ysgolion ac UC Dau](#), [Arweiniad atodol: arolygu diogelu mewn darpariaeth ôl-16](#) ac [Arweiniad atodol: byw'n iach](#).

O ran **Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu**, mae astudiaethau achos arfer orau yn y maes hwn yn cynnwys [Strategaethau ar gyfer cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg gan ddysgwyr ar bob lefel](#) a [Balchder yn y Gymraeg yn sicrhau llwyddiant](#).

Mae [Grymuso myfyrwyr i wneud gwahaniaeth cadarnhaol yn y byd](#) yn enghraifft o astudiaeth achos sy'n canolbwyntio ar **Gymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang**.

Mae Estyn yn gweithio i gydnabod a rhannu profiadau darparwyr o ddulliau **ataliol** ac arloesol. Mae ein hastudiaethau achos arfer orau yn enghreifftiau o arloesedd. Mae [Dull ataliol o gefnogi lles](#) yn enghraifft o astudiaeth achos sy'n canolbwyntio ar atal. Mae astudiaethau achos sy'n ymwneud â **chydweithio** ac **ymglymiad** yn cynnwys [Dull cydweithredol o gefnogi ymddygiad cadarnhaol](#) a [Cynnwys pob rhanddeiliad wrth nodi blaenoriaethau ar gyfer gwella'r ysgol](#).

PHOTO REDACTED DUE TO THIRD PARTY RIGHTS OR OTHER LEGAL ISSUES



Ein trefniadau presennol

Sut rydym yn datblygu Estyn yn sefydliad 'gwerth gorau' a 'chyflogwr enghreifftiol'

Byddwn yn ceisio adeiladu ar y trefniadau cadarn sydd eisoes ar waith i sicrhau ein bod yn gwneud defnydd effeithiol ac effeithlon o'n cyllideb yn unol â fframwaith ac egwyddorion Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru. Byddwn hefyd yn parhau i ddatblygu staff o fewn amgylchedd cefnogol ac ymddiriedus a fydd yn helpu cynnal ein lefelau uchel o ymgysylltiad ac yn gwella ein gallu arwain ymhellach.

Llywodraethu ac arweinyddiaeth

Mae ein [fframwaith llywodraethu](#) o fyrddau, pwyllgorau a grwpiau, gan gynnwys ein fframwaith sicrwydd, yn ein helpu i gyflawni ein hamcanion strategol fel sefydliad effeithlon, sy'n cael ei redeg yn dda ac sy'n atebol i'n staff, rhanddeiliaid a'r cyhoedd yn gyffredinol. O fewn y fframwaith, bydd [cyfarwyddwyr anweithredol](#), sy'n gwasanaethu fel aelodau ac yn cadeirio ein Bwrdd Strategaeth a'n Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC), yn herio a chefnogi'r uwch dîm rheoli.

Mae ein [strwythur sefydliadol](#) yn ategu ffocws strategol ar bob un o dri llinyn ein diben craidd, a byddwn yn parhau i ddefnyddio ein model arweinyddiaeth ddsbarthedig i gyflawni ein hamcanion.

Ymgysylltiad staff

Yn 2018, fe barhaom i fod ag un o'r sgorau ymgysylltu uchaf a grybwyllwyd gan holl sefydliadau'r gwasanaeth sifil ledled y DU (y trydydd uchaf o 102 i gyd) a gymerodd ran yn Arolwg Pobl blynyddol y Gwasanaeth Sifil, ond rydym yn cydnabod y bydd meysydd posibl i'w gwella o hyd. Bydd ein Grŵp Lechyd, Diogelwch, Lles ac Ymgysylltiad Cyflogeion yn parhau i ddatblygu, monitro a chyfleu cynnydd ar gamau gweithredu, a fydd yn helpu i fynd i'r afael ag unrhyw feysydd i'w gwella a nodwyd yng nghanlyniadau'r arolwg.

Byddwn yn parhau i gydweithio â sefydliadau eraill i gael mewnwelediad pellach ar ble gallwn ddatblygu ein pobl a'n sefydliad.

Trwy ein gwaith mewn partneriaeth â'n hundebau llafur, gan gynnwys ein fforymau strategol a gweithredol, byddwn yn parhau i geisio a gwerthfawrogi cyfraniadau effeithiol yr undebau llafur i ddatblygu Estyn yn sefydliad 'gwerth gorau'.

Cydraddoldeb a lles staff

Byddwn yn parhau i gefnogi amgylchedd gwaith teg a chynhwysol trwy gyflawni'r camau gweithredu yn ein [Cynllun Cydraddoldeb Strategol](#) a byddwn yn parhau i hyrwyddo a chynorthwyo lles staff trwy gamau gweithredu sy'n gydnaws â chynnal ein hachrediad Safon Lechyd Corfforaethol ar lefel Arian. Trwy ein harolygiadau a'n gwaith arolwg, byddwn yn parhau i hyrwyddo cydraddoldeb ac yn nodi a lledaenu arfer dda ar draws y sectorau addysg perthnasol.

Safonau'r Gymraeg

Byddwn yn parhau i ddatblygu ac adolygu ein polisiau a'n dulliau o fodloni safonau'r Gymraeg, fel y nodwyd gan Ddeddf yr Iaith Gymraeg. Mae hyn yn cynnwys rhoi briffiau ymsefydlu i'r holl staff newydd ar ymagwedd Estyn at y Gymraeg, a sicrhau bod pob un o'r staff yn cael cyfle i gymryd rhan mewn hyfforddiant trwy gyfrwng y Gymraeg. Byddwn yn parhau i ddefnyddio 'siopwyr cudd' ac yn cynnal adolygiadau cymheiriaid bob tymor ar draws ein timau gwasanaethau corfforaethol i brofi trylwyredd ac ansawdd ein gwasanaethau Cymraeg.

Mae ein [Cynllun Iaith Gymraeg](#) wedi ei gyhoeddi ar ein gwefan.

Cynaliadwyedd

Mae gan Estyn system rheoli amgylcheddol sefydledig ar waith a byddwn yn parhau i ddefnyddio'r broses achredu flynyddol 'Safon y Ddraig Werdd' i nodi unrhyw gyfleoedd i wella ein gweithgareddau rheoli amgylcheddol ymhellach, ac yn amlinellu'r rhain yn ein [Polisi a Datganiad Amgylcheddol](#).

Mae ein proses arolygu yn helpu i sicrhau bod dealltwriaeth disgyblion o ddatblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn datblygu'n briodol wrth iddynt symud ymlaen trwy eu haddysg.

Dangosyddion perfformiad

Rydym wedi datblygu set o [ddangosyddion perfformiad allweddol](#), sy'n cynorthwyo i gyflawni ein hamcanion strategol a hefyd yn adlewyrchu ein hegwyddorion cyflawni.

Mae ein targedau perfformiad ar gyfer 2019-2020 yn adlewyrchu ein huchelgais i gyflawni gwelliant parhaus; caiff targedau perfformiad a chanlyniadau ar gyfer y flwyddyn eu cyhoeddi a'u diweddarau ar ein gwefan.

Yn ystod 2019-2020, byddwn:

- yn adolygu ein set o ddangosyddion perfformiad allweddol yn unol â chynllun pontio Estyn

Adborth a chwynion

Mae ein [proses adborth a chwynion](#) yn amlinellu sut byddwn yn mynd i'r afael ag adborth a chwynion am arolygu ac agweddau eraill ar ein gwaith, ac yn ymateb iddynt.


Byddwn yn parhau i sicrhau ymchwiliad llawn a theg i'r holl gŵynion sy'n dod i law, ac yn unol â'r graddfeydd amser a amlinellir yn ein polisi.

Yn ystod 2019-2020, byddwn:

- yn adolygu ein polisi a'n gweithdrefnau mewnol er mwyn sicrhau eu bod yn aros yn briodol a thrylwyr, gan edrych yn fanylach yn benodol ar gŵynion a ddaeth i law o dan gam 1 y broses a sut y gellir mynd i'r afael â nhw yn gyflym ac yn gyson

Adnoddau

Cyllideb Estyn



Mae cyfanswm ffigur y gyllideb, sef £11.5 miliwn, yn cynnwys £370,000 a fydd yn cael ei ddyrannu i Estyn yn y gyllideb atodol gyntaf (Mehefin 2019). Nid yw ffigurau'n cynnwys incwm/gwariant posibl yn gysylltiedig â grantiau ar gyfer 2019-2020.

Mae costau staffio yn cyfrif am 75% o gyfanswm cyllideb refeniw Estyn (h.y. cyfanswm y gyllideb ac eithrio gwariant a chostau dibrisiant).

Dyraniad tybiannol y gyllideb i amcanion strategol

At ddibenion rheoli, caiff cyllideb Estyn ei dosrannu i amcanion strategol ar sail nifer arfaethedig y dyddiau arolygwyr ar gyfer gwaith sy'n tanategu pob amcan, a chaiff costau anuniongyrchol eu dyrannu i ddyddiau arolygwyr ar sail pro-rata.



Cynllunio ar gyfer y dyfodol

Bydd Estyn yn cefnogi a datblygu staff yn llawn i sicrhau eu bod mewn sefyllfa dda i gyflwyno rhaglen newid yr 'Arolygiaeth Dysgu'.

Dysgu proffesiynol ar gyfer staff

AEM

Byddwn yn parhau i ddarparu cyfleoedd dysgu proffesiynol ar gyfer yr holl AEM i sicrhau bod arolygwyr mewn sefyllfa dda i gynorthwyo ysgolion a darparwyr o ran arloesedd y cwricwlwm a diwygio addysg.

I ymateb i'r argymhellion a amlinellir yn adroddiad 'Arolygiaeth Dysgu', bydd arolygwyr yn cymryd rhan mewn trafodaethau a phenderfyniadau agored ac adeiladol i ddatblygu eu rôl. Bydd hyfforddiant yn canolbwyntio ar weithio mewn partneriaeth â'r pedwar consortiwm, i hyrwyddo datblygu'r cwricwlwm a gallu'r ysgol i werthuso'i pherfformiad ei hun yn llwyddiannus.

Yn ystod 2019-2020, byddwn:

- yn cyflwyno rhaglen dysgu proffesiynol gynlluniedig ar gyfer AEM i gefnogi cynlluniau strategol a chynlluniau pontio Estyn
- yn cryfhau arweinyddiaeth ddosbarthedig trwy gyfleoedd i AEM arwain prosiectau allweddol o fewn y cynllun pontio
- yn hyfforddi AEM mewn cynorthwyo ysgolion ag agweddau ar y prosiect hunanwerthuso ar gyfer gwella
- yn sicrhau bod arolygwyr wedi cael y wybodaeth ddiweddaraf am arweiniad y cwricwlwm newydd ac arfer sy'n dod i'r amlwg
- yn sicrhau bod arolygwyr yn parhau i gael y wybodaeth ddiweddaraf am yr holl ddeunyddiau arweiniad a hyfforddiant sy'n cael eu llunio gan Lywodraeth Cymru i gynorthwyo ysgolion i roi Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 newydd ar waith
- yn sicrhau bod arolygwyr yn cael eu cynorthwyo i'w galluogi i gynnal yr ymweliadau ymgysylltu newydd yn effeithiol

Staff gwasanaethau corfforaethol

Bydd gwaith staff gwasanaethau corfforaethol yn addasu a newid wrth i waith Estyn esblygu i ymateb i adroddiad 'Arolygiaeth Dysgu'.

Byddwn yn parhau i ddarparu amrywiaeth o gyfleoedd dysgu ar gyfer staff gwasanaethau corfforaethol i'w cynorthwyo â'u rolau a'u datblygu ymhellach.

Yn ystod 2019-2020, byddwn:

- yn cryfhau gallu arweinyddiaeth ddosbarthedig ar draws gwasanaethau corfforaethol trwy gynnwys staff yn y prosiectau amrywiol sy'n gysylltiedig â chynllun pontio strategol Estyn

- yn annog staff i weithio'n hyblyg ar draws gwasanaethau corfforaethol, gyda staff yn cymryd cyfrifoldeb am arwain a chyflwyno gweithgareddau y tu allan i'w maes gwaith arferol
- yn sicrhau bod cynllunio dilyniant effeithiol ar waith i gynnal gwybodaeth ac arweinyddiaeth gorfforaethol

Y nodau llesiant a'r egwyddor datblygu cynaliadwy

Rydym yn cydnabod bod **iechyd a lles** cyflogeion yn gyfraniad hanfodol at lwyddiant busnes ac yn helpu unigolion i fyw bywyd i'r eithaf. Rydym yn cyhoeddi [Polisi iechyd a lles](#) a [Polisi ac arweiniad ar gyfer rheoli straen a lles yn y gweithle](#).

Nod ein holl weithgareddau yw cyfrannu at **Gymru fwy cyfartal** lle gall pobl gyflawni eu potensial. Mae ein [Cynllun Cydraddoldeb Strategol](#) yn amlinellu ymrwymiad Estyn i sicrhau cydraddoldeb, a'r ffyrdd y cyflawnir hyn. Rydym yn parhau i ddatblygu ac adolygu ein polisiau a'n gweithdrefnau ac yn **cefnogi hyfforddiant trwy gyfrwng y Gymraeg** ar gyfer staff er mwyn gwella ein gwasanaethau Cymraeg. Mae ein [Polisi Iaith Gymraeg](#) yn dangos sut rydym yn bodloni gofynion safonau'r Gymraeg.

O ran **Cymru gydnerth**, mae Estyn yn canolbwyntio ar ddatgarboneiddio a defnyddio a chynhyrchu cynaliadwy trwy gaffael cynhyrchion a gwasanaethau. Mae [Polisi a Datganiad Amgylcheddol](#) Estyn yn amlinellu ein hymrwymiad amgylcheddol ac rydym wedi ein hachredu â Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd.

Mae gennym heriau **tymor hir** i'w hwynebu, fel gofynion gwaith cynyddol ac ansicrwydd ynghylch lefelau cyllid yn y dyfodol; mae ein fframwaith rheoli risg yn helpu i ni sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byrrach a thymor hwy. Dyma ddolen i'n [Polisi a'n canllawiau rheoli risg](#). O ran **meddwl integredig**, mae asesiadau effaith Estyn (cydraddoldeb a busnes, gan gynnwys rhai amgylcheddol) yn sicrhau ein bod yn gwneud y cysylltiadau rhwng materion ac yn gwneud penderfyniadau sydd â manteision ehangach.

Rydym yn **cynnwys** ac yn **cydweithio** â staff ac undebau llafur yn rheolaidd. Yn 2018, parhaom i fod ag un o'r sgorau ymgysylltu uchaf yr adroddwyd amdanynt o holl sefydliadau'r gwasanaeth sifil ledled y DU a gymerodd ran yn Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil – [Canlyniad Arolwg Pobl Estyn 2018](#).

PHOTO REDACTED DUE TO THIRD PARTY RIGHTS OR OTHER LEGAL ISSUES



Ein trefniadau presennol

Sut rydym yn cydweithio

Byddwn yn parhau i gydweithio ag arolygiaethau eraill yng Nghymru, y DU ac Ewrop gyda nod ar y cyd i gefnogi deilliannau gwell i bobl, a cheisio gwarchod eu buddiannau bob amser trwy adrodd heb ofn na ffafraeth ar y gwasanaethau cyhoeddus sy'n cael eu cwmpasu gan ein cylch gwaith. Trwy gydweithio â'n gilydd yn effeithiol, gellir gwella'r effaith a gawn ar bobl gyda'n gilydd. Er ein bod wedi anelu at weithio ar y cyd bob amser, rydym yn archwilio ffyrdd mwy effeithiol o rannu gwybodaeth, yn ogystal â chydlynu'n agosach o ran cynllunio a chyflawni ein gwaith ag arolygiaethau eraill yng Nghymru a'r DU.

Mae ein rhanddeiliaid yn ganolog i'n helpu i gyflawni ein cenhadaeth i hyrwyddo rhagoriaeth i bob dysgwr yng Nghymru, ac mae ymgysylltu â rhanddeiliaid yn rhan annatod o'n sefydliad. Ni allwn gyflawni ein diben ar ein pen ein hunain. Byddwn yn parhau i weithio mewn partneriaeth â'n rhanddeiliaid i wella sut rydym yn cynllunio ac yn cyflwyno ein gwasanaeth arolygu, ac yn ategu gwelliant yn y meysydd hynny o gydfuddiant. Trwy gynnal cyfarfodydd rheolaidd rhwng arolygwyr a chynrychiolwyr allweddol o'r sector, byddwn yn ennill dealltwriaeth ddyfnach o'r ffactorau sy'n effeithio ar ddarparwyr addysg.

Cydweithio â chyrrff Arolygu Cymru

Byddwn yn parhau i sicrhau y caiff ein cydweithio a'n gwaith cydweithredol eu harwain gan y weledigaeth a'r diben cyffredin a gytunwyd rhwng y pedwar corff arolygu, archwilio a rheoleiddio (AARh) yng Nghymru trwy Arolygu Cymru. Y chyrrff hyn yw Estyn, Swyddfa Archwilio Cymru (SAC), Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC).

Mae ein cydweithio wedi ei lywodraethu gan egwyddorion clir ac amcanion ar y cyd, a rhaid iddo fod yn weladwy a dangos y gwerth y mae'n ei ychwanegu i'n gweithgareddau. Felly, ffurfiwyd [cytundeb strategol](#) rhwng y pedwar sefydliad sy'n rhan o Arolygu Cymru, yn amlinellu sut gallem ddatblygu ein trefniadau cydweithio ymhellach.

Trwy adeiladu ar ein harolygiadau sefydledig ar y cyd o leoliadau nas cynhelir, byddwn yn parhau i weithio gydag AGC i archwilio sut gallwn ni ddatblygu gweithgarwch arolygu ar y cyd ar gyfer ysgolion a cholegau annibynnol ac arbennig sydd â darpariaeth breswyl i adeiladu ar y gwaith arolygu rydym eisoes yn ei wneud ar gyfer y cartref diogel i blant.

Yn ystod 2019-2020, byddwn:

- yn cydweithio ag AGC ar eu hadolygiad thematig cenedlaethol o gartrefi plant
- yn arbrofi ag arolygu ysgol annibynnol ar y cyd ag AGC

Dyma ddolen at y wefan ar gyfer [Arolygu Cymru](#) a blog sy'n cynnwys diweddariadau rheolaidd ar y rhaglen gydweithio.

Meysydd eraill o gydweithio ag arolygiaethau yn y DU a'r tu hwnt

Byddwn yn parhau i gynnwys arolygwyr Swyddfa Archwilio Cymru yn ein timau arolygu gwasanaethau addysg llywodraeth leol i werthuso pa mor dda y mae'r awdurdod lleol yn sicrhau bod ei adnoddau yn gydnaws â blaenoriaethau strategol, gan gynnwys p'un a oes cynlluniau cadarn o ran cynllunio ariannol a datblygu'r gweithlu yn cyd-fynd â'u strategaethau gwella.

Yn ystod 2019-2020, byddwn:

- yn gweithio gydag arolygiaethau eraill a rheoleiddwyr (Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi, AGIC, AGC ac Arolygiaeth Cwnstabiliaeth Ei Mawrhydi a Gwasanaethau Tân ac Achub) i ddatblygu ac arbrofi â threfniadau ar gyfer dull arolygu integredig i werthuso effeithiolrwydd trefniadau diogelu cydweithio mewn ardal leol

Bydd yr arolygiadau hyn yn canolbwyntio ar ba mor dda y mae asiantaethau sy'n gysylltiedig ag addysg, lles, iechyd a lles plant a phobl ifanc yn gweithio gyda'i gilydd i'w hamddiffyn rhag niwed. Bydd grŵp llywio'r prosiect a'r gweithgor yn datblygu fframwaith pwrpasol i Gymru ar gyfer arolygiadau ardal targedig ar y cyd, gan ddefnyddio cryfderau'r model a ddefnyddir yn Lloegr.

- yn parhau i gydweithio ag Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi o ran arolygiadau ar y cyd o garchardai a chanolfannau symud mewnfudwyr sy'n dal plant a phobl ifanc hyd at 18 mlwydd oed, ac oedolion dros 18 oed
- yn parhau i ymuno ag arolygiadau llawn ar y cyd o dimau troseddwr ifanc a arweinir gan AEM Prawf
- yn gweithio gydag arolygiaethau eraill a chyrrff sicrhau ansawdd i ddatblygu trefniadau cydweithio. Er enghraifft, byddwn yn parhau i wahodd arolygwyr Swyddfa Archwilio Cymru ac AEM o arolygiaethau addysg a hyfforddiant y gwledydd cartref i ymuno â ni ar arolygiadau colegau addysg bellach ac arolygiadau o ddarparwyr dysgu yn y gwaith.

Cynllunio ar gyfer y dyfodol

Dau brosiect arall sy'n gysylltiedig â rhaglen newid 'Arolygiaeth Dysgu' yw'r prosiect hunanwerthuso ar gyfer dysgu a gwella, a'n gwaith i gryfhau ymgysylltu â rhanddeiliaid a chyfathrebu yn gyffredinol.

Hunanwerthuso ar gyfer dysgu a gwella

Bydd y pecyn cymorth hunanwerthuso ar gyfer gwella ar gael i ysgolion yn nhymor yr hydref 2019. Bydd ysgolion yn cael eu cynorthwyo trwy'r cyfnod gweithredu gan raglenni hyfforddi, cynadleddau ac ymweliadau ymgysylltu gan arolygwyr ardal i helpu hyrwyddo arfer effeithiol.

Yn ystod 2019-2020, byddwn:

- yn gweithio gydag ysgolion peilot i brofi'r deunyddiau a'r dulliau yn ystod tymor yr hydref, ac yn ystyried sut mae angen i ni wella a datblygu'r gwaith cyn i bob ysgol ddechrau defnyddio'r pecyn cymorth yn ystod tymor y gwanwyn 2020

Cryfhau ymgysylltu â rhanddeiliaid a chyfathrebu yn gyffredinol

Mae ein [Strategaeth Ymgysylltu â Rhanddeiliaid 2016-2019](#) bresennol yn amlinellu'r modd yr ydym yn cynnal ein perthnasoedd â'n rhanddeiliaid allweddol ac yn gwrandao ar eu safbwyntiau fel y gallwn ddefnyddio adborth a gwybodaeth i wella'r ffordd rydym yn cyfleu a chyflawni ein hamcanion a'n hegwyddorion cyflawni.

Byddwn yn sicrhau bod ein rhanddeiliaid yn gallu cyfrannu'n llawn at ddatblygu a gweithredu ein hamcanion a'n cynllun gweithredu. Ffocws allweddol i Estyn eleni yw meithrin hyder ac ymddiriedaeth bresennol rhanddeiliaid yn ein gwaith mewn cyfnod o newid sylweddol o ran trefniadau arolygu a datblygiadau cwricwlaidd newydd. Byddwn yn ystyried effeithiolrwydd ein hymgysylltiad â phob un o'r grwpiau y nodwyd eu bod yn 'rhanddeiliaid' trwy werthuso i ba raddau y mae deilliannau ein gweithgareddau ymgysylltu yn ein galluogi i wella effaith ac ansawdd ein gwaith.

Yn ystod 2019-2020, byddwn:

- yn adolygu ac yn cyhoeddi ein Strategaeth Ymgysylltu â Rhanddeiliaid newydd
- yn cryfhau'r ffordd rydym yn ymgysylltu â rhanddeiliaid ac yn diwallu anghenion ein corff mawr ac amrywiol o ddefnyddwyr a darparwyr
- yn datblygu rhaglen ymgynghori tair blynedd i gefnogi cyflwyno ein cynllun pontio
- yn gwerthuso'r graddau y mae ein dulliau cyfathrebu allanol yn gyfoes ac effeithiol
- yn cynnal nifer o ddigwyddiadau a gweithgareddau a fydd yn rhoi pob cyfle i'r rheiny sydd â diddordeb yn eu gwaith, beth bynnag fo'u cefndir neu nodweddion personol, roi sylwadau am y modd y darperir ein gwasanaethau, ac ymgynghori ar hyn
- yn datblygu cynadleddau blynyddol i rhanddeiliaid ar gyfer y sectorau ysgolion annibynnol, ysgolion arbennig a gynhelir ac UCD

Ein nod yn ystod y flwyddyn yw cydweithio ag arolygiaethau eraill a rhanddeiliaid i gefnogi gwelliant fel ein bod yn defnyddio eu hadborth a'u gwybodaeth i wella'r ffordd rydym yn cyfleu a chyflawni ein hamcanion strategol. Bydd hyn yn galluogi i ni wella ein mecanweithiau ar gyfer ymgysylltu â grwpiau rhanddeiliaid targedig penodol. Yn ogystal, bydd yn sicrhau dull cydlynus o ymgysylltu â rhanddeiliaid mewn datblygiadau mewn arolygiaeth dysgu.

Bydd Estyn yn canolbwyntio'n glir ar y canlynol:

Hysbysu rhanddeiliaid: rhoi negeseuon clir, cydlynus a chyson i rhanddeiliaid; gan roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am ddatblygiadau mewn arolygu, yr arfer orau ddiweddaraf ac argymhellion o'n gwaith thematig ac arolygu

Ymgynghori â rhanddeiliaid: gwneud y defnydd gorau o'u hamser trwy ofyn am eu barn, ennyn eu diddordeb mewn penderfyniadau a rhannu gwybodaeth, annog adborth ar ganmoliaethau a phryderon i helpu llywio ein prosesau gwneud penderfyniadau a'n helpu i feithrin perthnasoedd gwell

Cydweithio â rhanddeiliaid: gweithio gyda'n gilydd ar lefel strategol, gan ddefnyddio gwybodaeth ac adborth a gasglwyd i hwyluso trafodaethau cynhwysol ac eang trwy ein sianelau cyfathrebu sefydledig

Y nodau llesiant a'r egwyddor datblygu cynaliadwy

Mae Estyn yn ymdrechu i gyfrannu at **gyfrifoldeb byd-eang** a **chydweithio**. Rydym yn gweithio gyda Chynhadledd Sefydlog Ryngwladol yr Arolygiaethau (SICI) ac fe gynhaliom weithdy rhyngwladol yng Nghaerdydd yn Ebrill 2016. Mae staff Estyn wedi mynychu gweithdai SICI yn Serbia, Y Ffindir, Norwy, Malta a Glasgow ac wedi rhoi cyflwyniadau yng nghyfarfodydd arolygiaethau addysg y gwledydd cartref ym Manceinion a Llundain. Bydd gweithdai nesaf SICI ym Mwlgaria, Madeira, Portiwgal, Dulyn a Llundain.

Gweithgor SICI penodol yw prosiect Erasmus. Mae'r prosiect 'arolygu gwell ar gyfer cynhwysiant cymdeithasol gwell' neu 'BIBESOIN' yn canolbwyntio ar gamau gweithredu ac arferion sy'n helpu mynd i'r afael ag **amrywiaeth** ac yn hyrwyddo ac ysgogi **cynhwysiant cymdeithasol** mewn ysgolion prif ffrwd. Mae staff Estyn wedi mynychu cyfarfodydd prosiect Erasmus ym Mrwsel a Sbaen, a bydd Estyn yn cynnal cyfarfod prosiect Erasmus yng Ngorffennaf 2019.

Bu staff Estyn yn gweithio gyda staff y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) i arwain prosiect ar y cyd i ddatblygu pecyn cymorth cenedlaethol hunanwerthuso a chynllunio gwelliant. Bydd y prosiect yn dod â phartneriaid allweddol at ei gilydd i ddatblygu a pheilotu pecyn cymorth.

Mae Estyn yn croesawu adborth a sylwadau am y Cynllun Blynyddol hwn, y gallir eu hanfon atom drwy'r e-bost i adborth@estyn.llyw.cymru

Mae'r Cynllun Blynyddol hwn wedi cael ei gyflwyno at sylw Prif Weinidog Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac wedi cael ei gymeradwyo ganddo.